

Cofnodion



Cyngor

Dyddiad: Dydd Mawrth, 10 Medi 2019

Amser: 5.00 pm

Bresennol: Cynghorwyr J Cleverly, P Cockeram, D Davies, M Al-Nuaimi, C Evans, M Evans, C Ferris, D Fouweather, G Giles, D Harvey, I Hayat, Councillor R Jeavons, M Kellaway, D Mayer, R Mogford, A Morris, Councillor J Mudd, J Richards, M Spencer, T Suller, H Thomas, K Thomas, C Townsend, Councillor R Truman, T Watkins, M Whitcutt, R White, K Whitehead, D Wilcox, D Williams, J Clarke, V Dudley, Y Forsey, R Hayat, P Hourahine, J Hughes, J Jordan, L Lacey, S Marshall, W Routley, H Townsend and J Watkins

Ymddiheuriadau: Cynghorwyr M Cornelious, K Critchley, J Guy, M Linton, M Rahman, G Berry and T Holyoake

1. Rhagofynion

i. Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr canlynol:- Majid Rahman, Graham Berry, Tracey Holyoake, Margaret Cornelious, John Guy a Malcolm Linton.

ii. I dderbyn datganiadau o fuddiant.

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

iii. I dderbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Maer.

Ron Jones

Cyfeiriodd y Maer at y newyddion trist ynghylch marwolaeth Ron Jones a fu farw yn 102 oed. Roedd Ron yn gyn-filwr rhyfel ac yn adnabyddus am werthu bathodynau yn ystod apêl y pabi. Gofynnodd y Maer i'r Aelodau sefyll am funud o dawelwch.

Ychwanegodd yr Arweinydd fod Ron yn ddinesydd rhagorol o Gasnewydd ac mai ef oedd y cyntaf i dderbyn Gwobr Ysbryd Casnewydd. Ymunodd y Cyngor i estyn eu cydymdeimladau i deulu a ffrindiau, gan ddweud bod Ron wedi meddiannu lle arbennig yng nghalonau trigolion Trefdraeth ac ardal ehangach.

Arweinydd y Cyngor

Ar ran y Cyngor, llongyfarchodd y Maer Arweinydd y Cyngor ar ei dyrchafiad i Dŷ'r Arglwyddi yn dilyn Rhestr Anrhydeddau Ymddiswyddiad y cyn Prif Weinidog, Theresa

May. Cafodd yr Arweinydd ei wneud yn Arglwydd am oes am ei chyfraniad rhagorol i addysg a Llywodraeth Leol. Roedd hyn nid yn unig yn gyflawniad anhygoel i'r Cynghorydd Wilcox ond i Ddinas Casnewydd.

Ychwanegodd y Maer ei fod yn siŵr y byddai pawb a oedd yn bresennol yn cytuno bod hwn yn foment falch i Gyngor Dinas Casnewydd, Cymru a thu hwnt.

Rhoddodd pawb a oedd yn bresennol rownd o gymeradwyaeth i'r Arweinydd.

Cydnabu'r Arweinydd y wobr a dywedodd ei bod yn anrhydedd mawr i wleidyddion llywodraeth leol i gael eu gwerthfawrogi fel hyn. Dywedodd yr Arweinydd ei bod wedi mwynhau'r rôl ac y byddai'n gwasanaethu'r Cyngor mewn unrhyw ffordd y gallai ond yn anffodus byddai'n gorfod camu i lawr fel Arweinydd. Diolchodd yr Arweinydd i'r Cynghorwyr am y ffordd broffesiynol yr oeddent yn gweithredu.

Estynnodd y Maer wahoddiad i Arweinwyr y gwrthbleidiau drosglwyddo eu negeseuon i'r arweinydd hefyd.

Llongyfarchodd y Cynghorydd M Evans yr Arweinydd gan gymeradwyo sylwadau'r Maer a chrybwyllodd fod bod yn Arweinydd y Cyngor yn waith anodd a heriol yn ogystal â bod yn Arweinydd CLILC, yn enwedig yn yr hinsawdd wleidyddol bresennol ac ar ran grŵp y Ceidwadwyr roedd y yn dymuno'r gorau i'r Arweinydd.

Dywedodd y Cynghorydd M Whitcutt fel Dirprwy Arweinydd a chydweithiwr ward am bron i 17 mlynedd ei fod nid yn unig yn haeddiannol ond mewn cyfnod byr, fod yr Arweinydd wedi trawsnewid y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru, Llywodraeth Genedlaethol a Llywodraeth Leol i berthynas fwy cydweithredol. Roedd yr Arweinydd wedi bod yn rhagorol yn ei rolau fel Arweinydd ac aelod ward ac roedd ei dyrchafiad i Dŷ'r Arglwyddi yn haeddiannol iawn. Roedd hefyd yn gydnabyddiaeth gadarnhaol o'r ffaith bod yr Arweinydd yn frwd iawn o ran addysg ac yn gofalu am yr amgylchfyd cyhoeddus.

Ychwanegodd y Cynghorydd K Whitehead y bu dadleuon llawen gyda'r Arweinydd ac na allai ond ategu'r hyn yr oedd eraill wedi'i ddweud a dymuno'r gorau iddi.

Roedd y Cynghorydd C Townsend yn adlewyrchu sylwadau'r rhai a oedd eisoes wedi siarad, gan ychwanegu bod y Cynghorydd Wilcox yn Arweinydd da iawn, yn hawdd siarad â hi ac yn ateb unrhyw ymholiadau a godwyd bob amser.

Will Godfrey

Hysbysodd y Maer y Cyngor y byddai Will Godfrey, y Prif Weithredwr yn gadael Cyngor Dinas Casnewydd yn ddiweddarach y mis hwn. Roedd Will Godfrey, a ymunodd â Chyngor Dinas Casnewydd ym mis Ionawr 2013, wedi cael ei dderbyn fel Prif Weithredwr newydd Cyngor Caerfaddon a Gogledd Ddwyrain Gwlad yr Haf. Ar ran y Cyngor, roedd y Maer yn dymuno'r gorau iddo ar gyfer y dyfodol.

Llongyfarchodd yr Arweinydd Will hefyd a chrybwyllodd ei fod wedi ymrwymo i wasanaethu'r Cyngor am fwy na chwe blynedd. Wrth wynebu caledi ac amseroedd heriol, bu Will yn gweithio'n dda gyda'r Cynghorwyr a'r uwch swyddogion ac wedi cyfrannu ei adnoddau ar lefel ranbarthol.

Rhoddodd pawb a oedd yn bresennol rownd o gymeradwyaeth i'r Prif Weithredwr yng ngoleuni'r newyddion.

Dymunodd y Cynghorydd Evans y gorau ar ran y Blaid Geidwadol a soniodd bod Will bob amser yn gwrtais ac yn broffesiynol a dymunodd bob llwyddiant iddo yn ei yrfa newydd.

Roedd y Cynghorydd K Whitehead hefyd yn dymuno'r gorau, yn ogystal â'r Cynghorydd C Townsend, yn ogystal â diolch iddo am fynychu cyfarfodydd ward San Silian.

Dywedodd Will Godfrey ei fod wedi bod yn fraint fawr gweithio i Gyngor Dinas Casnewydd ac na allai fod wedi gwneud y gwaith heb gefnogaeth y staff gwych, nad oedd yn cael digon o glod am y gwaith maent yn gwneud. Dywedodd Will na fyddai'n bell i ffwrdd ac y byddai'n ymweld o bryd i'w gilydd gan fod Casnewydd yn agos at ei galon ac roedd yn gobeithio y byddai'r ddinas yn mynd o nerth i nerth.

Tlws y Gemau Trawsblannu

Gwobrwywyd y Tlws y Gemau Trawsblannu i Gasnewydd a dyma oedd y wobwr gyntaf a roddwyd i ddinas yng Nghymru a'r ail yn y DU. Roedd y tlws yn cael ei arddangos yn Siambr y Cyngor i bawb ei weld ac yna byddai'n cael ei symud yn ôl i Barlwr y Maer

Elusen 'Bomber Pearce'

Byddai rhaglen ddogfen yn cael ei dangos yn ddiweddarach yn ystod yr wythnos ar y BBC, a fyddai'n cynnwys David 'Bomber' Pearce. Byddai llyfr hefyd yn cael ei gyhoeddi dros gyfnod y Nadolig ac awgrymodd y Maer y dylid enwebu'r diweddar David Pearce ar gyfer Gwobr Ysbryd Casnewydd.

2. Cofnodion

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod y cyngor a gynhaliwyd ar 23 Gorffennaf

2019 fel cofnod gwir a chywir ac eithrio un gwall teipio a nodwyd gan y Cynghorydd V Dudley.

Eitem 8 - Cwestiynau i Arweinydd y Cyngor, Tudalen 12: O dan baragraff y canllaw gwrth-aflonyddu, mae angen gwneud cywiriad yn Saesneg i gyfeirio at y gair "intimidation" (ac nid "intimation").

3. Penodiadau

Ni chafwyd unrhyw benodiadau i'w cyhoeddi yn y Cyngor y tro hwn.

4. Materion yr Heddlu

Rhoddodd yr Uwcharolygydd Mike Richards ddiweddariad byr ar weithgarwch ar draws y tri sector plismona yng Nghasnewydd.

Roedd rhai o'r diweddariadau cyffredinol yn cynnwys yr Uwcharolygydd Mike Roberts yn croesawu 19 o Wardeiniaid Diogelwch Cymunedol i Ddwyrain Casnewydd, ac mae llawer o'r rheini wedi dechrau ac ar reolaeth annibynnol.

Ar thema debyg, yr oedd yr heddlu'n hysbysebu am gwnstabiliaid lleol, sy'n meddwl y byddai'r flwyddyn ariannol hon yn gweld recriwtio 62 o swyddogion newydd. Yn olaf, byddai hefyd nifer newydd o gwnstabiliaid arbennig yn ymuno â'r heddlu ym mis Hydref a fyddai'n patrolio'r strydoedd ar ôl y Nadolig.

Roedd arolygydd newydd ar gyfer Dwyrain Casnewydd, Martin Cawley, a fyddai'n mynd i'r afael â'r mater o bobol sy'n rasio yn enwedig o amgylch Parc Manwerthu Spytty. Roedd yr Arolygydd Cawley wedi bod yn goruchwyllo llawer o weithgarwch gorfodi a thros ddau benwythnos ym mis Gorffennaf ac Awst cafodd dros 300 o ddirwyon goryrru eu trosglwyddo i yrwyr ledled Cymru a thu hwnt.

Byddai siopau Tesco yn Spytty yn gosod camerâu ANPR a fyddai'n cyfyngu ar faint o amser y byddai ceir yn ei dreulio yn y safle y tu allan i oriau.

Yn ogystal â hyn, cafwyd adroddiadau am ddelio â chyffuriau ym Mharc y Llundu Du a Phont Faen, am warantau chwilio a weithredwyd a bod hebryngwyr wedi cynyddu yn yr ardaloedd hynny. Roedd hyn yn digwydd hefyd yn Sain Silian ac Ystâd Old Barn lle y gwnaed arestiadau, gyda gwaith partneriaeth agos gyda Chasnewydd Fyw o amgylch y Ddarpariaeth Gwasanaeth Ieuenctid a gweithgareddau dargyfeiriol. Diolchwyd i Gasnewydd Fyw am eu cefnogaeth.

Mewn perthynas ag Alway a Ringland, bu gostyngiad yn nifer y galwadau yn dilyn gwaith dargyfeiriol o fewn y wardiau hynny. Gwnaed buddsoddiad hefyd mewn Gorsaf Heddlu Symudol, lle'r oedd consolau Play Station wedi'u gosod ar gyfer yr ieuenctid yn yr ardal honno, a chafwyd rhai canlyniadau cadarnhaol o hyn. Bu cynnydd o ran dwyn cerbydau modur a llosgi allan o feiciau modur yn Ringland, a oedd yn cael ei drin fel blaenoriaeth.

Roedd y materion yng Ngorllewin Casnewydd yn cael eu goruchwyllo gan yr Arolygydd Griffiths. Ym Maesglas, roedd materion yn ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a defnyddio cyffuriau. Roedd patrolau heddlu wedi'u rhoi ar waith a bu sawl achos o arestio am droseddau cyffuriau. Bydd taith gerdded o gwmpas yr ardal hon.

Mewn perthynas ag ardal Frances Drive, Pillgwenlli, cafwyd adborth cadarnhaol o ran lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol dros yr haf a oedd yn newyddion da.

Llwyddwyd i weithredu gwarant chwilio ym Mhillgwenlli ar 1 Awst ynghyd â Diwrnod Gweithredu Amlasiantaeth y bwriedir ei gynnal yn ddiweddarach yn y mis.

Bu ymgyrch dridiau yn y Betws yn ddiweddar, yn targedu materion gwrthgymdeithasol, materion yn ymwneud â chyffuriau a defnyddio cerbydau, a bu arést am feddiant gyda'r bwriad o'i gyflenwi.

Yn olaf, mewn perthynas â Chanol Casnewydd, a oruchwylwyd gan yr Arolygydd Nigel Lewis, roedd St Pauls Walk, a oedd yn parhau i fod yn fan poeth ar gyfer troseddu, wedi'i thargedu gan yr heddlu. Roedd yr Uwcharolygydd wedi cael ei ddiweddarau gan y sarsiant cymdogaeth y bu gostyngiad yn y galwadau dros y pedair i chwe wythnos diwethaf.

Yn ddiweddar, cyfarfu'r tîm plismona cymdogaeth yng nghanol y ddinas â'r Cyngor ynghylch materion yn ymwneud â thagfeydd tacsis ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a achosir gan gynulladau mawr yng nghanol y ddinas ar benwythnosau neu'n hwyr yn y nos a chytunwyd ar yr ardaloedd aros a neilltuwyd a chawsant eu gorfodi.

Byddai gweithrediad wedi'i dargedu ac yng nghanol y ddinas yn ymwneud â dwyn beiciau gan fod nifer o ddigwyddiadau wedi'u hadrodd.

Cwestiynau gan Gynghorwyr:

Diolchodd y Cynghorydd A Morris i'r Arolygydd Cawley am y diweddariad. Nid oedd yn ymddangos bod galwadau o ardal Pont Faen yn cyd-fynd â galwadau'r heddlu, gan na fyddai llawer o breswylwyr yn defnyddio'r rhif cyswllt 101 gan eu bod yn teimlo bod yna gost. A allai'r heddlu gadarnhau faint y byddai'r galwadau hyn yn ei gostio i breswylwyr. *Yn y cyfamser, roedd y Cynghorydd Mogford wedi chwilio ar-lein ac wedi hysbysu cynghorwyr bod*

galwadau 101 yn costio 15c fesul galwad ar linell dir a ffôn symudol. Mewn perthynas ag Ystâd Old Barn, gofynnodd y Cynghorydd Hourahine am y wybodaeth ddiweddaraf am Ymgyrch Harvey a dywedodd fod beicio oddi ar y ffordd a beiciau nad ydynt wedi'u cofrestru i'w gweld ar gynnydd yn Glebelands a Heol Durham. Byddai hyn yn cael ei ystyried, gan ei fod yn flaenoriaeth i'r tri sector ar draws Casnewydd.

Rhoddodd y Cynghorydd Jeavons wybod i'r Uwcharolygydd Richards fod nifer o danau wedi'u cynnu yn ward Llyswry. Byddai hyn yn derbyn sylw ac yn cael ei adrodd yn ôl.

Cyfeiriodd y Cynghorydd J Watkins at View Point, yn Christchurch, lle'r oedd pryderon difrifol gan drigolion. Mae'n debyg i benderfyniad gael ei wneud i gau'r gatiau am 10:00pm, gan fod digwyddiad o oedd wedi cynnwys ceidwad. Yn y cyfamser, cafodd y penderfyniad hwnnw ei ddiddymu. Roedd y Cynghorydd Watkins wedi cysylltu â'r Arolygydd Cawley ond nid oedd yn ymwybodol bod y penderfyniad wedi'i ddiddymu. Roedd preswylwyr yn dioddef grwpiau yn ymgasglu ac yn feiciau modur, roedd gweithgaredd cyffuriau hefyd yn y nos yn cario drwy'r bore. Gellid clywed y sŵn o dros filltir i ffwrdd. Nid oedd yr Uwcharolygydd Richards wedi cael ei friffio ar y mater hwn ond dywedodd wrth y cynghorydd fod yr Arolygydd Cawley yn ymwybodol. Byddai'r heddlu'n croesawu ac yn annog preswylwyr i roi gwybod am y digwyddiadau hyn.

Gofynnodd y Cynghorydd Fouweather i'r heddlu a swyddogion arbennig ychwanegol i gael eu dyrannu i ward Allt-yr-ynn gan eu bod yn ased gwerthfawr. Byddai'r Uwcharolygydd yn ymchwilio i hyn.

Soniodd y Cynghorydd J Hughes fod preswylwyr dros y penwythnos wedi dod o hyd i lawer o gistiau nwy chwerthin gan ofyn i swyddogion gynyddu eu patrolau yn yr ardal. Cytunodd yr Uwcharolygydd Richards i hyn.

Diolchodd y Cynghorydd Forsey i'r swyddogion am fynychu Gŵyl Tŷ-du Roedd swyddogion yn brysur yn cyfarfod â thrigolion ac yn mwynhau'r gefnogaeth gymunedol. Byddai'r Uwcharolygydd Richards yn bwydo hyn yn ôl i'r swyddogion.

Diolchodd y Cynghorydd Al-Nuaimi i'r heddlu am eu gwaith yng nghanol y ddinas. Roedd lle i wella yn York Place gyda'r Swyddogion Gorfodi Parcio Sifil a benodwyd yn ddiweddar, fodd bynnag, roedd yn rhoi cyfle i ddelwyr ddefnyddio'r manau gwag, gwelodd Cynghorydd hyn yn digwydd ar un achlysur. Byddai'r Uwcharolygydd Richards yn edrych i mewn i hyn.

Gofynnodd y Cynghorydd Suller a oedd unrhyw wybodaeth ar raswyr ceir ifanc yn ward Maerun, ger Blacksmith Way. Yn ychwanegol a yw silindrau nwy yn cael eu rheoleiddio. Byddai'r Uwcharolygydd Richard yn edrych i mewn i'r ymholiad cyntaf. Gan gyfeirio at silindrau nwy, aethpwyd â siop yn ardal Caerffili i'r llys gan yr awdurdod lleol.

Nododd y Cynghorydd H Thomas fod y gweithgaredd cyffuriau yng Nghasnewydd wedi cynyddu, gan gyfeirio at ymgyrch Heddlu Arfog yn Hoskins Street a gofynnodd a oedd adnoddau annigonol yn bryder. Soniodd yr Uwcharolygydd Richards fod Casnewydd yn lle rhad i brynu cyffuriau, a dyna pam y cafwyd mwy o ddigwyddiadau. Fodd bynnag, byddai troseddau sy'n gysylltiedig â chyffuriau bob amser yn flaenoriaeth. Yn ffodus, nid oedd materion difrifol yn ymwneud â llinellau sirol yn delio â chyffuriau.

Cyfeiriodd y Cynghorydd S Marshall at seiberdroseddu a sgamiau dros y ffôn. Roedd yna sgâm HMRC a arweiniodd at arestiadau, ond roedd preswylwyr agored i niwed yn meddwl bod y math yma o alwadau heb wahoddiad yn real. Roedd hyn yn cael sylw, a gyda'r buddsoddiad mewn swyddogion Cymorth Cymunedol, y gobaith oedd codi ymwybyddiaeth o'r broblem. Byddai'r swyddogion hyn yn gwneud eu gorau.

Gofynnodd y Cynghorydd R Hayat a oedd Heddlu Gwent yn cynnig interniaethau neu recriwtio eraill. Roedd yna ddigwyddiadau agored, ond nid oedd unrhyw beth mewn lle o ran interniaethau.

5. **Hysbysiad o gynnig: #Wyf Adduned 2 Siarad - Ymgyrch Atal Hunanladdiad Ymhlith Dynion**

Y Cyngor i ystyried y cynnig canlynol lle mae'r hysbysiad angenrheidiol wedi'i osod. Y Cynghorydd Debbie Wilcox a oedd yn cyflwyno'r cynnig hwn ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mark Whitcutt.

'Mae'r awdurdod hwn yn cefnogi'r Ymgyrch Atal Hunanladdiad Ymhlith Dynion #IPledge2Talk a bydd yn gweithio i gefnogi iechyd meddwl cadarnhaol yng nghymunedau Casnewydd mewn ysgolion, cymdogaethau a gweithleoedd lleol.

Fel awdurdod lleol, rydym yn cydnabod ein rôl hollbwysig o ran hybu ymwybyddiaeth o'r mater hwn.

Dylai annog lles meddyliol fod yn flaenoriaeth ar draws holl feysydd cyfrifoldeb yr awdurdod lleol, gan gynnwys tai, diogelwch cymunedol a chynllunio.

Bydd yr awdurdod yn hyrwyddo iechyd meddwl ar sail strategol unigol a bydd yn penodi aelod etholedig fel ei 'Hyrwyddwr Iechyd Meddwl' o fewn y Cyngor.'

Wrth wneud y Cynnig, dywedodd yr Arweinydd ei bod wedi gadael cardiau'r addewid melyn i'w dosbarthu i bob aelod ar ôl cyfarfod y Cyngor ac y gellid eu dilyn drwy sianeli arferol ar gyfer aelodau staff.

Hefyd, penodwyd y Cynghorydd K Thomas yn Hyrwyddwr Iechyd Meddwl. Gwnaeth yr Arweinydd y cynnig ac eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Whitcutt.

Cefnogodd y Cynghorydd G Giles y cynnig hwn yn llawn ar gyfer teuluoedd yr effeithiwyd arnynt gan hunanladdiad. Roedd darparu gofal priodol yn hanfodol, ym maes addysg yn benodol. Roedd yn hanfodol cydnabod ymyrraeth gynnar i atal achosion rhag digwydd. Roedd gan bob disgybl Cymru fynediad at gwrsela, gyda chymorth a gyflwynwyd yn ddiweddar i blant yn y dosbarth meithrin i bump oed, a oedd yn unigryw. Roedd y Gwasanaeth Seicoleg Addysg yn hybu hunangymorth ac roedd nifer o fentrau'n cael eu treialu gan gynnwys cyflwyno hyfforddwr cymorth cyntaf iechyd meddwl o fis Hydref ymlaen. Roedd hyfforddiant parhaus yn cynnwys sgiliau ymyriadau hunanladdiad cymwysedig yn ogystal â gwaith sylweddol a wnaed gan Gynllun Gweithredu Gwent. Roedd mwy o gefnogaeth i staff a disgyblion. Roedd atgyfeiriadau hefyd yn cael eu gwneud ac yn anffodus cafwyd cynnydd cydnabyddedig mewn digwyddiadau, felly cefnogodd y Cynghorydd Giles y cynnig yn llawn.

Siaradodd nifer o'r aelodau o blaid y cynnig a rhai profiadau personol a rannwyd sy'n berthnasol i'r ddadl.

Gohiriodd y Maer y cyfarfod am doriad byr ac ailgynullodd y cyfarfod wedi deng munud.

Penderfynwyd

Penderfynwyd yn unfrydol i gefnogi'r cynnig.

6. **Penodi Prif Weithredwr Dros Dro/Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, gan amlinellu bod y Prif Weithredwr presennol wedi rhoi gwybod y byddai'n gadael ar ddechrau mis Hydref. O fewn y Cyngor, y Prif Weithredwr oedd Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig dynodedig yn unol â Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 gan gyflawni'r cyfrifoldebau statudol perthnasol. Byddai penodi Prif Weithredwr Dros Dro yn galluogi'r cyfrifoldebau hyn i gael eu cyflawni'n barhaus ac yn sicrhau arweiniad strategol priodol. Pe bai etholiad yn cael ei gynnal yn ystod y cyfnod hwn, byddai'r Prif Weithredwr Dros Dro hefyd yn cyflawni rôl y Swyddog Canlyniadau, felly roedd y Cyngor o dan rwymedigaeth gyfreithiol i benodi Prif Weithredwr Dros Dro cyn gynted â phosibl.

Roedd yr adroddiad yn cynnig y dylid rhoi'r pŵer dirprwyedig i benodi Prif Weithredwr Dros Dro i banel penodi â chydbwysedd gwleidyddol o saith aelod yn unol â gweithdrefnau safonol. Gan y byddai hwn yn benodiad cyfnod penodol, nid oedd gofyniad i hysbysebu'r swydd wag. Roedd CLILC wedi cael y dasg o ddarparu ymgeiswyr â chymwysterau addas a allai ddechrau gweithio ar unwaith. Bydd y penodiad am gyfnod o chwe mis gyda'r disgrisiwn i'w ymestyn am 12 mis.

Yn wreiddiol, roedd yr adroddiad yn nodi bod y penderfyniad i ymestyn i 12 mis yn cael ei wneud gan yr Arweinydd mewn ymgynghoriad â Phennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio a Phennaeth Pobl a Newid Busnes. Ers hynny, roedd yr Arweinydd wedi siarad â'i chydweithiwr, y Cynghorydd M Evans, Arweinydd yr Wrthblaid, ac roedd yn fodlon diwygio'r adroddiad i ddarllen, pe byddai estyniad o 12 mis, bod yr Arweinydd, y Dirprwy Arweinydd ac Arweinydd yr Wrthblaid yn cymryd y penderfyniad hwn ar y cyd, er mwyn cael panel gwleidyddol cytbwys. Felly, gofynnodd yr Arweinydd i'r prif swyddog cyfreithiol a oedd yn bresennol yn y Cyngor nodi'r newidiadau.

Diolchodd y Cynghorydd M Evans i'r Arweinydd am hyn a chefnogodd yr adroddiad yn llawn.

Eiliwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd M Whitcutt.

Penderfynwyd

Penderfynwyd yn unfrydol i nodi'r adroddiad a dirprwyo awdurdod i Bwyllgor Penodiadau i benodi Prif Weithredwr / Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig Dros Dro am chwe mis, gydag opsiwn i ymestyn i 12 mis. Rhoddir pŵer dirprwyedig i'r Arweinydd, y Dirprwy Arweinydd ac Arweinydd yr Wrthblaid gyuno ar estyniad y tu hwnt i chwe mis, mewn ymgynghoriad â Phenaeithiad y Gyfraith a Rheoleiddio a Phobl a Newid Busnes.

7. Arcêd Marchnad Canol Dinas Casnewydd: Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Drwyddedu a Rheoleiddio'r adroddiad, i hysbysu'r Cyngor o ganlyniad yr ymgynghoriadau cyhoeddus ar y Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus arfaethedig (GDMC) ar gyfer Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus a

gofyn i'r Cyngor ystyried y cynnig y dylid gwneud Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus yn dilyn argymhelliad gan yr Aelod Cabinet dros Drwyddedu a Rheoleiddio i'r Cyngor wneud y Gorchymyn.

Oherwydd yr ymddygiad gwrthgymdeithasol a brofwyd yn yr Arcêd, roedd yn amserol i'r Cyngor weithredu GDMC i gau'r arcêd yn y nos i'r cyhoedd. Roedd hawl dramwyr cyhoedd, yn rhedeg drwy'r Arcêd ac felly nid oedd perchnogion yr Arcêd yn gallu cau'r Arcêd pryd bynnag yr oeddent yn dymuno. Cynghorodd yr Aelod Cabinet dros Drwyddedu a Rheoleiddio'r Cyngor y byddai hyn yn cael ei gyfeirio ato fel 'Gorchymyn Gatio' ar gyfer yr Arcêd.

Roedd ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gynnal ac roedd cefnogaeth gyffredinol i Orchymyn Gatio i ganiatáu cau'r Arcêd yn y nos. Neilltuwyd cymeradwyaeth ar gyfer y Cyngor llawn, felly gofynnodd yr adroddiad i'r Cyngor wneud Gorchymyn Gatio i gau Arcêd y Farchnad i'r

cyhoedd rhwng 8:00pm a 7:00am, saith diwrnod yr wythnos, yn dilyn argymhelliad i wneud hynny gan yr Aelod Cabinet dros Drwyddedu a Rheoleiddio.

Rhoddodd y Cynghorydd Fouweather gefnogaeth i weithredu Gorchymyn Gatio, er mwyn caniatáu i'r busnesau lleol redeg heb ofni ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Cefnogodd y Cynghorydd Cleverly yr adroddiad.

Cafodd yr adroddiad ei eilio gan yr Arweinydd.

Penderfynwyd

Bod y Cyngor hwn yn gwneud Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus ar gyfer Arcêd y Farchnad.

8. Adroddiad Blynyddol Craffu 2018/2019

Cyflwynodd y Cynghorydd Lacey yr adroddiad a oedd yn amlinellu bod y cyfansoddiad yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgorau Craffu gyflwyno adroddiad blynyddol bob blwyddyn i'r Cyngor, i adolygu sut yr oedd y gwaith craffu wedi gweithredu yn ystod y 12 mis diwethaf.

Roedd yn anodd mesur effaith gwaith Craffu gan ddefnyddio mesurau perfformiad traddodiadol, a oedd yn cyfrif yr hyn a ddeilliodd o'r Pwyllgorau Craffu ond nad oedd yn mesur canlyniadau eu gwaith, nac yn dangos a oedd gwelliannau wedi'u gwneud o ganlyniad i hynny. Roedd yr Adroddiad Blynyddol yn offeryn mwy defnyddiol ar gyfer adolygu effeithiolrwydd gwaith Craffu, gan roi cyfle i fyfyrion'n briodol ar sut yr oedd y gwaith Craffu wedi gweithredu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a nodi'r heriau arfaethedig y gellid eu defnyddio i farnu perfformiad yn y dyfodol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd M Evans at y crynodeb ar dudalen 44 o'r Adroddiad Blynyddol, gan amlinellu'r prif ddatblygiadau a chyflawniadau'r flwyddyn honno gan awgrymu bod lle i wella. Nid oedd y dudalen dan sylw yn ddigon disgrifiadol ac nid oedd yn darparu unrhyw dystiolaeth o'r hyn a oedd yn cael ei wneud. Teimlwyd bod angen bod yn fwy cryno a chanolbwyntio ar yr hyn a gyflawnwyd. Dywedodd y Cynghorydd M Evans felly y byddai'n cefnogi'r adroddiad ond roedd yn teimlo bod lle i wella ac y dylid cynnwys rhestr o gyflawniadau yn y dyfodol

Cafodd yr adroddiad ei eilio gan y Cynghorydd Al-Nuaimi.

Penderfynwyd

Cytunodd y cyngor hwn yn unfrydol ar gynnwys yr adroddiad blynyddol fel sail i waith y Pwyllgorau Craffu yn y flwyddyn i ddod.

9. Cwestiynau i Arweinydd y Cyngor

Rhoddodd yr Arweinydd y cyhoeddiadau canlynol, cyn bwrw ymlaen â chwestiynau:

Y cyhoeddiad diweddar ynghylch gwaith dur Orb. Roedd hyn yn newyddion trist iawn i weithwyr a'u teuluoedd, roedd yn rhwystredig pan oedd ein gallu i ddylanwadu ar faterion o'r fath yn gyfyngedig.

Roedd y Cyngor i dderbyn Gwobr Aur Cydnabyddiaeth i gyflogwyr gan y Lluoedd Arfog. Roedd hyn yn cefnogi unigolion a oedd yn trosglwyddo o'r Lluoedd Arfog a'r Lluoedd Arbennig Wrth Gefn.

Roedd Gemau Trawsblannu Prydain yn llwyddiant ysgubol. Dangosodd y preswylwyr eu cefnogaeth. Ategwyd gan yr Arweinydd mai Casnewydd oedd yr ail ddinas ym Mhrydain erioed i fod yn Ddinas Rhoddwyr a derbyn Gwobr.

Byddai'r Wyl Fwyd flynyddol yn cael ei chynnal ar 5 Hydref. Roedd y Cyngor yn ddiolchgar am gefnogaeth y busnesau. Byddai'r uchafbwyntiau'n cynnwys arddangosiadau gan gogyddion a diddanwyr stryd ac roedd yr Arweinydd yn edrych ymlaen at gael beirniadu'r gystadleuaeth Cogyddion yn eu Hardegau.

Cwestiynau i'r Arweinydd

Gwaith Dur Orb

Cyfeiriodd y Cynghorydd M Evans at y cyhoeddiad bod cannoedd o swyddi dan fygythiad yn ffatri TATA Orb a oedd yn newyddion siomedig i'r gweithlu, y teulu a'r gymuned ehangach a bod meddyliau pawb gyda nhw ar yr adeg anodd hon. Cynigiwyd cymorth gan ACau ac ASau a rhoddwyd datganiad gan Ken Skates, Gweinidog Economi Cymru a ddywedodd y byddai Llywodraeth Cymru yn gwneud popeth o fewn ei gallu i gefnogi unigolion, y gymuned a'r gadwyn gyflenwi yr oedd y newyddion hyn yn effeithio arnynt.

Ni wnaeth y Cynghorydd M Evans gofio dim yn cael ei grybwyll yn gynt gan yr Arweinydd a gofynnodd beth oedd y Cyngor wedi ei wneud felly dros y blynyddoedd diwethaf ac ers y cyhoeddiad er mwyn mynd i'r afael â'u pryderon.

Cytunodd yr Arweinydd ei bod yn ergyd i'r ddinas, fodd bynnag nid oedd unrhyw rybudd ymlaen llaw gan TATA Steel am y penderfyniad na'r heriau sy'n wynebu'r busnes. Byddai'r Cyngor nawr yn gweithio gyda TATA a Llywodraeth Cymru i ddarparu cymaint o gymorth â phosibl i'r rhai y mae'r cyhoeddiad yn effeithio arnynt.

Yn ogystal, gofynnodd y Cynghorydd M Evans i'r Arweinydd roi sylw i'r hyn yr oedd y Cyngor wedi'i wneud dros y blynyddoedd diwethaf. Roedd gan y Cyngor adran datblygu economaidd y disgwyliid iddo ymwneud â materion o'r fath, yn ogystal, a allai'r Arweinydd hefyd fod yn fwy penodol ynghylch pa gymorth fyddai'n cael ei gynnig i'r gweithwyr yn awr ac yn y gorffennol.

Dywedodd yr Arweinydd y byddai'r rhestr o fesurau'n cael ei chanfod yn glir ac y byddai ymateb yn cael ei ddarparu i Arweinydd yr wrthblaid.

Cyfeiriodd y Cynghorydd K Whitehead at benodi Prif Weithredwr Dros Dro a oedd yn benodiad â chyflogau uchel a gofynnodd a ellid cytuno ar drefniant rhannu swydd mewn cyfnod o galedi.

Dywedodd yr Arweinydd fod swydd Prif Swyddog Addysg wedi cael ei rhannu unwaith rhwng dau awdurdod, ond nid oedd o'r farn y byddai rhannu swydd Prif Weithredwr yn ymarferol ar hyn o bryd gan fod y Cyngor eisoes yn meddu ar un o'r niferoedd isaf o staff mewn uwch swyddi.

Gofynnodd y Cynghorydd Carmel Townsend a fyddai strategaeth diogelwch ar y ffyrdd ar waith ar gyfer Casnewydd o ystyried y cynnydd mewn traffig.

Cyfarfu'r Arweinydd â'r grŵp G10 i drafod materion traffig. O ganlyniad, y gobaith oedd y byddai mwy o wariant ar ddiogelwch ar y ffyrdd ar gyfer yr M4. Byddai ymgynghori'n digwydd er mwyn sicrhau bod y cynlluniau a'r polisiâu'n cael eu paratoi'n gyflym.

Gofynnodd y Cyngorydd S Marshall i'r Arweinydd sut mae presenoldeb yn yr ysgol yng Nghasnewydd yn cymharu â phresenoldeb mewn ysgolion eraill yng Nghymru ar lefel ysgol uwchradd.

Roedd yr Arweinydd yn falch o gyhoeddi bod Casnewydd yn agos at frig y rhestr, seithfed allan o'r 22 awdurdod yn ystod 2018/19 a oedd yn uwch na chyfartaledd Cymru ac yn dangos ymrwymiad gan ysgolion.

10. Cwestiynau i Aelodau 'r Cabinet

i. Yr Aelod Cabinet dros Adfywio a Thai

Gofynnodd y Cyngorydd Ray Mogford y cwestiwn canlynol a gyflwynwyd o flaen llaw:

'O'r 1af Ebrill 2016 hyd 31 Mawrth 2019, faint o arian sydd wedi cael ei roi i Gyngor Casnewydd gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r Grant Atal Digartrefedd - a - beth mae'r arian hwn wedi cael ei wario arno?'

Ymatebodd yr Aelod Cabinet dros Adfywio a Thai:

'Rhoddwyd cyllid i'r Cyngor o dan raglen Grant Atal Digartrefedd Llywodraeth Cymru a oedd yn gysylltiedig â chyflwyno Deddf Tai (Cymru) 2014, gan gydnabod y pwysau a'r beichiau ychwanegol a osodir ar bob Awdurdod Lleol wrth gyflawni gofynion y ddeddf. Mae'r arian a ddyrannwyd a'r cynllun/gwasanaethau a wariwyd ar hyn fel a ganlyn:

2016/17 - £149,400

*Staffio - CDC - rôl swyddog llety - gweithio gyda'r sector rhentu preifat
Y Gronfa Atal Digartrefedd - CDC - arian a ddefnyddir i rwystro digartrefedd a helpu i gael mynediad i lety arall
Gwasanaeth Cyfryngu - Llamau*

2017/18 - £139,440

*Y Gronfa Atal Digartrefedd - CDC - arian a ddefnyddir i rwystro digartrefedd a helpu i gael mynediad i lety arall
Gwasanaeth Cyfryngu - Llamau
Prosiect Llwybr Person Ifanc - Grŵp POBL - costau staffio
Swyddog Strategaeth Digartrefedd Gwent - CBS Torfaen - cyllid ar draws awdurdodau lleol Gwent i gyflogi swyddog i gynnal yr adolygiad o ddigartrefedd ym mhob ardal ac i ddatblygu Strategaeth Ddigartrefedd Gwent
System Dai Cívica - Cívica UK - system TG
Cysgodfa Nos - Eden Gate*

2018/19

*Llety a Rennir i Bobl Ifanc – Llamau – costau staffio
Prosiect Llety â Chymorth – Llamau – costau staffio a rhedeg
Cysgodfa Nos - Eden Gate
Gwasanaeth Allgymorth Dwys – Wallich*

Y cyllid yw'r swm a ddyfernir o'r Grant Atal Digartrefedd ac nid yw'n cynnwys arian y mae'r Cyngor wedi gwneud cais amdano ar wahân ar gyfer cynlluniau a mentrau dros dro eraill.'

Fel cwestiwn atodol, gofynnodd y Cyngorydd Mogford a ellid darparu dadansoddiad o'r ffigurau i gynghorwyr.

ii. Cwestiwn ar y cyd i'r Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau a'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau'r Ddinas

Gofynnodd y Cyngorydd Joan Watkins y cwestiwn canlynol a gyflwynwyd o flaen llaw:

'A yw'r Aelod Cabinet dros Addysg yn cyfathrebu â Heddlu Gwent ynghylch llwybrau cerdded diogel i ysgolion Casnewydd ac oddi yno.'

Ymatebodd yr Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau:

'Mae llwybrau cerdded diogel i'r ysgol yn cael eu harwain, eu rheoli a'u mapio gan Wasanaethau'r Ddinas. Yn naturiol, lle mae meysydd gwasanaeth a phortffolio Aelodau'r Cabinet yn croesi (fel yn yr amgylchiad hwn) mae briffio Aelodau Cabinet ar y cyd yn digwydd. Mae hyn yn sicrhau fy mod yn cael gwybod yn gyson am unrhyw broblemau a gwaith prosiect sy'n gysylltiedig â llwybrau diogel ac annog teithio llesol. Trosglwyddaf i'r Cyngorydd Jeavons i roi manylion pellach i chi ar y cwestiwn yr ydych yn ei gyflwyno.'

Ymatebodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau'r Ddinas

'Wrth asesu llwybrau cerdded ysgolion, yn hanesyddol mae'r Cyngor wedi cysylltu â'r Heddlu i sefydlu unrhyw feysydd o bryder y mae'r llwybr arfaethedig yn mynd drwyddynt. Mae'r syrfêwr bellach yn defnyddio gwefan police.uk, sy'n cynnwys cronfa ddata ar fapiau o'r holl ddigwyddiadau a gofnodir ar y stryd.'

Os yw'r asesiad yn nodi unrhyw feysydd sy'n peri pryder, mae'r syrfêwr yn cysylltu â'r timau plismona lleol i drafod y goblygiadau ar y llwybr arfaethedig.'

Gofynnodd y Cyngorydd Watkins gwestiwn atodol o ran Cais Rhyddid Gwybodaeth a gyflwynwyd ym mis Awst, yr ymateb a gafwyd oedd na fu unrhyw negeseuon e-bost na thrafodaethau ar ddiogelwch i blant a oedd yn cerdded i'r ysgol wedi cael eu derbyn gan y Cyngor hwn oddi wrth yr Heddlu.

Byddai hyn yn cael ei archwilio a byddai ymateb ysgrifenedig yn cael ei ddsbarthu.

iii. Yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau'r Ddinas

Gofynnodd y Cyngorydd Ray Mogford y cwestiwn canlynol a gyflwynwyd o flaen llaw:

'Mae gan gynghorau bŵer dros derfynau cyflymder lleol tra bod gan y Llywodraeth reolaeth dros y terfyn cenedlaethol.'

A all yr Aelod Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r cyngor hwn am unrhyw fentrau o ran lleihau cyflymder traffig yn lleol y mae ei adran yn ymwneud ag ef. A yw'r Cyngor yn bwriadu dilyn yr arweiniad a bennwyd gan Gaerdydd ac Abertawe o ran lleihau terfynau cyflymder traffig mewn rhai ardaloedd preswyl? Os felly, a allai'r Aelod Cabinet roi rhai enghreifftiau?'

Ymatebodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau'r Ddinas

'Mae gan Gyngor Dinas Casnewydd, fel awdurdod traffig lleol, bwerau i amrywio terfynau cyflymder ar y rhwydwaith ffyrdd lleol, gan gynnwys cyflwyno terfynau cyflymder 20mya lle y bernir bod hynny'n briodol. Mae'r posibilrwydd o gyflwyno neu amrywio terfynau cyflymder yng Nghymru ar hyn o bryd yn cael ei asesu yn unol â'r safonau cyfredol a osodwyd gan Gylchlythyr 24/2009 Llywodraeth Cymru "Gosod Terfynau Cyflymder Lleol yng Nghymru".

Bydd yr Aelod yn ymwybodol bod y Prif Weinidog wedi cadarnhau ar 7 Mai 2019 bod Llywodraeth Cymru yn credu mai 20mya ddylai fod y terfyn cyflymder diofyn ar gyfer ardaloedd preswyl. Mae'r Dirprwy Weinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, ynghyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, wedi bwrw ymlaen â gwaith i nodi'r camau ymarferol y mae angen eu cymryd er mwyn gweithredu terfyn cyflymder rhagosodedig o 20mya ledled Cymru.

Felly, mae'r Cyngor yn aros am ganlyniad trafodaethau Llywodraeth Cymru ar leihau'r terfyn cyflymder preswyl cenedlaethol a hyd nes y bydd yr amser hwnnw yn parhau i reoli'r rhwydwaith o fewn safonau presennol Llywodraeth Cymru.'

Fel cwestiwn atodol, gofynnodd y Cynghorydd Mogford a fyddai'r Aelod Cabinet yn mynychu cynhadledd Diogelwch y Ffordd RGS yn y Celtic Manor ar 11 Hydref. Roedd yr Aelod Cabinet wedi cael gwahoddiad y flwyddyn flaenorol, ac felly byddai'n gweld a fyddai'n cael ei wahodd eleni.

11. Cwestiynau i Gadeiryddion Pwyllgorau

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau i Gadeiryddion y Pwyllgorau.

12. Pwyllgor Safonau Cofnodion

Byddai'r cofnodion yn cael eu cytuno mewn cyfarfod yn y dyfodol.

13. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

Dydd Mawrth 26 Tachwedd am 5pm yn Siambrau'r Cyngor.

Daeth y cyfarfod I ben am 7.00 pm